



Ffurflen astudiaeth

Enw'r astudiaeth Ymgysylltu yn ystod Ffair y Gaeaf 2012

Geiriau allweddol Cymuned wledig

Côd llosgi

Panel ymgynghori

1. Cyflwyniad byr

Aeth cynrychiolwyr Gwasanaeth Tân ac Achub y Deheubarth i Ffair y Gaeaf ar Faes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd, fis Tachwedd 2012, achos ein bod o'r farn y dylen ni ymgysylltu â rhagor o bobl cefn gwlad.

2. Manylion y pwnc sydd wedi'i drafod

Dyma'r ddau fater roedden ni am eu trafod:

- Cynghori ffermwyr a pherchnogion tir am ofynion Côd y Llosgi ynglŷn â llosgi glaswellt.
- Gwahodd pobl i ymuno â'n panel ymgynghori i'n helpu i lunio gwasanaethau'r dyfodol.

3. Camau sydd wedi'u cymryd

Penderfynon ni grwydro'r maes lle gallen ni holi pobl am y côd a lledaenu taflenni am ymuno â'n panel ymgynghori.

4. Buddion megis gwella gwasanaethau, gwella trafodaethau am ariannu a threfnu gwasanaethau rhwng mudiadau'r trydydd sector a'r awdurdodau lleol, trefniadau cymorth ar ffurfiau amgen ac ati.

- Diben y côd yw osgoi ymateb yn ddiangen i danau yng nghefn gwlad gan fod gofyn i roi gwybod inni o flaen llaw am y bwriad i losgi glaswellt, gan nodi pryd a ble y bydd hynny'n digwydd.
- Diben gwahodd pobl i ymuno â'n panel ymgynghori yw eu hannog nhw i gymryd rhan yn ein gwaith a'n helpu i lunio gwasanaethau yn ôl y gweithgareddau sy'n bwysicaf i'r trigolion.

5. Cynnal a/neu ddatblygu'r buddion

- Trwy dynnu mwy a mwy o sylw at Gôd y Llosgi, ein gobaith yw osgoi gorfod mynd i ddiffodd tanau sydd wedi'u cynnau'n rhan o raglen losgi ffermwyr.
- Wrth ddatblygu'n banel ymgynghori, byddwn ni'n ymgysylltu â'r aelodau ynglŷn â llunio gwasanaethau'r dyfodol.

6. Cyd-fynd ag Egwyddorion Gwladol Ymgysylltu Cyhoeddus Cymru

Mae colofn y rhesymau yn y tabl isod yn esbonio hyn ynghyd â'r sgôr sydd ym mharagraff 7.

Ffurflen astudiaeth

| Egwyddor | Sgôr | Rhesymau |
|---|------|---|
| Ymgysylltu ar gyfer effaith sylweddol. | 3 | Rydyn ni'n annog pobl i ymddiddori yng ngwaith ehangach y gwasanaeth y tu hwnt i ymateb i argyfyngau. |
| Annog a galluogi pawb sydd ynghlwm i gymryd rhan yn ôl eu dewis. | 3 | Yn ystod ein trafodaethau, roedden ni'n awyddus i nodi pryderon perchnogion tir ynglŷn â llosgi glaswellt o dan reolaeth. |
| Ymgysylltu'n drefnus ar yr adeg briodol ac yn y modd priodol. | 4 | Rhoddwyd taflen i bawb ofynnodd am un, ac roedd tri gweithiwr wedi'u hysbysu am y materion penodol o flaen llaw. |
| Cydweithio â phartneriaid perthnasol. | 2 | Penderfynon ni wneud hyn ar ein pennau ein hunain ond buasai o fantais pe baen ni wedi cydweithio â'r sefydliadau eraill oedd yno i wneud y gorau o'r cyfleoedd i ymgysylltu. |
| Rhoi gwybodaeth briodol, hawdd ei deall, heb jargon. | 5 | Lluniwyd taflenni hawdd eu deall. Esbonion ni unrhyw beth aneglur wrth eu rhoi i bobl. |
| Gofalu y bydd yn haws i bobl gymryd rhan. | 4 | Roedd modd siarad â phawb oedd yno o ganlyniad i grwydro'r maes. |
| Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol. | 3 | Roedd medrau, gwybodaeth a hyder y rhai gymerodd ran heb eu profi yn ystod y ffair. |
| Rhoi adnoddau/cymorth priodol i'r ymgysylltu, fel y bydd yn effeithiol. | 3 | Er bod digon o staff wedi'u neilltuo, rwyf i o'r farn y buasai'n well cydweithio â phartneriaid trwy gynnal stondin ar y cyd, er enghraifft, yn hytrach na chrwydro'r maes, yn arbennig am fod y tywydd mor wael. |
| Rhoi gwybod i bobl am effaith eu cyfraniad. | 3 | Heb gysylltu â'r rhai ddywedodd yr hoffen nhw ymuno â'n panel ymgynghori hyd yma, er inni ddweud yn eglur fod bwriad i gysylltu â nhw ar gyfer ymgynghori fel a wnaethon ni ynglŷn â'n cynllun strategol 2013-14. |
| Dysgu a lledaenu'r gwersi i wella proses yr ymgysylltu. | 4 | Ystyriwyd y gwersi ddaeth i'r amlwg yn ystod sesiwn ar ôl y ffair, i ddibenion gwella. |

Ffurflen astudiaeth

7. Trin a thrafod y prosiect yn ôl Egwyddorion Gwladol Ymgysylltu Cyhoeddus Cymru

Gwerthuso

1 = gwael iawn: 2 = gwael: 3 = gweddol: 4 = da: 5 = rhagorol

| Rhif | Egwyddor | |
|------|---|---|
| 1 | Ymgysylltu ar gyfer effaith sylweddol. | 3 |
| 2 | Annog a galluogi pawb sydd ynghlwm i gymryd rhan yn ôl eu dewis. | 3 |
| 3 | Ymgysylltu'n drefnus ar yr adeg briodol ac yn y modd priodol. | 4 |
| 4 | Cydweithio â phartneriaid perthnasol. | 2 |
| 5 | Rhoi gwybodaeth briodol, hawdd ei deall, heb jargon. | 5 |
| 6 | Gofalu y bydd yn haws i bobl gymryd rhan. | 4 |
| 7 | Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol. | 3 |
| 8 | Rhoi adnoddau/cymorth priodol i'r ymgysylltu, fel y bydd yn effeithiol. | 3 |
| 9 | Rhoi gwybod i bobl am effaith eu cyfraniad. | 3 |
| 10 | Dysgu a lledaenu'r gwersi i wella proses yr ymgysylltu. | 4 |

Manylion cysylltu

Enw: Howard Thomas

Swydd:

Sefydliad: Fferm Pant Ddu, Cilfynydd, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf

Ebost: H-Thomas@southwales-fire.gov.uk

Ffôn: 07791 390485

2013